ADAMS, ROGER (bu farw 1741), argraffydd yng Nghaer

Enw: Roger Adams
Dyddiad marw: 1741
Priod: Elizabeth Adams (née Buckley)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd yng Nghaer
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Cafodd ryddfreiniad dinas Caer ar 20 Chwefror 1713-4. Er nad oes sicrwydd bod Roger Adams yn Gymro caiff ei grybwyll yma am ei fod gyda'r cyntaf i argraffu llyfrau a baledi Cymraeg yng Nghaer. Ei lyfr Cymraeg cyntaf, y mae'n bosibl, ydoedd *Ystyriaethau o Gyflwr Dyn*, 1724. Yn 1730 dechreuodd argraffu newyddiadur a ddaeth yn adnabyddus ac a ddarllennid yng Ngogledd Cymru, sef *Adams's Chester Weekly Courant*. Efe, hefyd, a argraffodd John Reynolds, *The Scripture Genealogy and Display of Herauldry*, 1739. Wedi ei farw bu ei weddw, ELIZABETH ADAMS, yn dwyn y busnes ymlaen. Hyhi a argraffodd *Cydymaith Diddan* (Dafydd Jones o Drefriw), 1766; argraffodd hefyd, e.e. yn 1752 a 1753, lawer o faledi.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Morris Parry, 'Chester Welsh Printing,' yn *Journal of the Architectural, Archaeological and Historic Society of Chester and North Wales*, 1915, a *Gwasg Gymraeg Caerlleon* (Caerlleon 1931)

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18922262

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu